# RHAGOLWG

## Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol. [Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad Dydd Mawrth 14 Mawrth 2006]

**Dydd Mawrth 21 Mawrth a dydd Mercher 22 Mawrth 2006**

**Dydd Mawrth 28 Mawrth a dydd Mercher 29 Mawrth 2006**

**Dydd Mawrth 4 Ebrill a dydd Mercher 5 Ebrill 2006**

**Dydd Mawrth 21 Mawrth 2006**

- **Motion to elect a Planning Decision Committee (1 munud)**
- **Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cyflenwi contract ocsigen (30 munud)**
- **Datganiad gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Y Dreth Gyngor (30 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**

  Ø **Gorchymyn Brwselosis (Cymru) 2006**
  Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn ailddeddfu yn sylweddol Gorchymyn Brwselosis 1997 mewn perthynas â Chymru. Achosir Brwselosis mewn gwartheg gan haint gyda'r bacteriwm *Brucella abortus*, sy'n gallu achosi clefyd mewn pobl a elwir 'y dwymyn donnol'. Mae Brwselosis mewn gwartheg yn glefyd hysbysadwy a ddilëwyd o wartheg ym Mhrydain Fawr ym 1979, ond sydd wedi'i ailgyflwyno sawl gwaith gan wartheg sydd wedi'u mewnforio. Mae Brwselosis yn achosi erthyliad neu'n peri i anifeiliaid sydd wedi'u heintio yn ddiweddar fwrw lloi cyn pryd. Mae bacteria *Brucella abortus* yn gallu effeithio

ar wartheg a phobl eraill pan fydd i'w gael mewn llaeth. Mae'r Gorchymyn yn dileu'r Rhestr o Labordai Cymeradwy o'r atodlen i Orchymyn 1997 fel y gellir gwneud diwygiadau yn y dyfodol i'r rhestr honno heb yr angen i ddiwygio'r Gorchymyn. Mae'n gwneud newidiadau hefyd ynghylch y trefniadau ar gyfer profi llaeth am dystiolaeth o Frwselosis.

Ø **Gorchymyn Lewcocis Buchol Ensöotig (Cymru) 2006**
Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn ailddeddfu Gorchymyn Lewcocis Buchol Ensöotig 1997 mewn perthynas â Chymru. Mae Lewcocis Ensöotig mewn Gwartheg (EBL) yn glefyd trosglwyddadwy a achosir gan lewcofirws mewn gwartheg. Mae'n gallu cael ei drosglwyddo o'r fam i'r llo, ac o fuwch i fuwch, gan achosi lewcemia a thiwmorau lluosog. Ni chredir ar hyn o bryd ei fod yn cael ei drosglwyddo i bobl. Mae arwyddion clinigol i'w gweld mewn gwartheg rhwng 4 ac 8 oed. Mae'r rhain yn cynnwys afiechyd cronig, colli graen, gwendid, anemia ac anorecsia. Mae EBL hefyd yn gallu peri i diwmorau ffurfio. Mae'r Gorchymyn hwn yn cyflwyno trefn lai beichus, llai aml ar gyfer profi am laeth, ond mae'n parhau i weithredu rhai o ddarpariaethau 64/432/EEC a 77/391/EEC ar reoli clefydau gwartheg rhaglenni dileu ac ar fasnach o fewn y Gymuned mewn gwartheg.

Ø **Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2006**
Diben y Gorchymyn hwn yw cychwyn adrannau 26, 27, 28, 30, 32, 33, 34, 44, 48 ac Atodlen 4 (ac eithrio paragraff (5) o'r Atodlen honno), 50, 52, 53, 54, 55, 56, a 61, Rhannau 1, 2 a 4 o Atodlen 5 o Ddeddf Plant 2004.

Mae'r Gorchymyn yn dod â nifer o ddarpariaethau i rym sy'n ymwneud â gwasanaethau plant yng Nghymru gan gynnwys cynlluniau plant a phobl ifanc, byrddau lleol diogelu plant, maethu preifat, gofalu am blant a gofal dydd, ymyrraeth, hyrwyddo cyflawniadau addysgol, darganfod dymuniadau plant, gwybodaeth am blant, pwyllgorau gwasanaethau cymdeithasol a Chomisiynydd Plant Cymru.

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 25 Adran 2 a Rheol Sefydlog 24.25 (1 munud)**

Ø **Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2006**
Diben y Gorchymyn hwn yw cychwyn adrannau 25 a 31 o Ddeddf Plant 2004. Mae Adran 25 yn gosod dyletswydd ar Awdurdod Gwasanaethau Plant yng Nghymru i wneud trefniadau i hybu cydweithredu rhwng partneriaid allweddol, i wella lles plant a phobl ifanc ac i gyfuno adnoddau i gefnogi'r amcan hwnnw. Mae Adran 31 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau gwasanaethau plant i

sefydlu Byrddau Lleol Diogelu Plant (LSCBs) i ddisodli'r Pwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant anstatudol.

- **Motion to approve under Standing Order 25 section 3 (10 munud)**

  Ø **The Pesticides (Maximum residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuffs) (England and Wales) (Amendment) Regulations 2006**

  The European Community has in place a regime permitting the setting, on a scientific basis, of maximum pesticide residue levels (MRLs) on crops, food and feeding stuffs. The programme has been designed to harmonise Community legislation and strengthen consumer protection by providing a mechanism to take action should any pesticide misuse occur.

  These Regulations transpose three EC Directives 2005/70/EC, 2005/74/EC and 2005/76/EC, which amend the framework Directives (76/896/EEC, 86/362/EEC, 86/363/EEC and 90/642/EEC) developed as part of an on going program to establish MRLs for all pesticides in a wide range of foodstuffs.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 (10 munud)**

Bydd Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 yn disodli'r darpariaethau a gynhwysir yn adrannau 54 – 57 ac Atodlenni 16 a 17 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Byddant yn darparu fframwaith rheoleiddio newydd a fydd yn fodd i gyrff llywodraethu weithredu a chyflawni eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau mewn cysylltiad â phenodi, ymddygiad a disgyblaeth (gan gynnwys cwynion staff a gallu), gwahardd dros dro a diswyddo staff mewn ysgolion a gynhelir. Mae'r Rheoliadau newydd bron yn dyblygu'r darpariaethau a gynhwysir yn Atodlenni 16 a 17 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, ond yn gwneud rhai mân newidiadau. Maent hefyd yn cynnwys dwy ddarpariaeth newydd, sy'n rhan o ymateb y Cynulliad i argymhellion yn Adroddiad Ymchwiliad Clywch y Comisiynydd Plant. Yn hyn o beth, mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu benodi aelod annibynnol i ymchwilio i honiadau yn erbyn staff ysgol mewn perthynas â materion amddiffyn plant yn dilyn ystyriaeth gan yr awdurdodau statudol. Mae'r ddarpariaeth arall yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu benodi aelod annibynnol, heb fod yn llywodraethwr gyda hawliau pleidleisio i bwyllgorau disgyblu/diswyddo staff a phwyllgorau apelio disgyblu/diswyddo staff mewn achosion amddiffyn plant.

- **Cynnig i gymeradwyo Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 9 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006 (10 munud)**

Diben y Gorchymyn hwn yw cychwyn darpariaethau yn Neddf Addysg 2002, a

fydd yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud Rheoliadau i ddisodli'r darpariaethau sydd mewn grym ar hyn o bryd yn Atodlenni 16 (mewn perthynas ag ysgolion cymunedol, ysgolion cymunedol arbennig, ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion meithrin a gynhelir) ac Atodlen 17 (mewn perthynas ag ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 sy'n cwmpasu penodiad, ymddygiad a disgyblaeth, gwahardd dros dro a diswyddo staff mewn ysgolion a gynhelir.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn cychwyn darpariaethau trosiannol yn ei gwneud yn ofynnol, nes i Reoliadau gael eu gwneud o dan adran 31 o Ddeddf Addysg 2002 ynghylch rheoli mangreodd ysgol, bod y cyfeiriadau ym mharagraff 9 o Atodlen 2 o Ddeddf Addysg 2002 at 'any transfer of control authorised by Regulations under section 31' yn cael eu disodli gan gyfeiriadau at Atodlen 13 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Cynllun Addysg Sengl (Cymru) 2006 (10 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gwasanaethau plant yng Nghymru sy'n Awdurdodau Addysg Lleol baratoi a chyhoeddi Cynllun Addysg Sengl yn nodi strategaeth yr awdurdod ar gyfer cyflawni eu cyfrifoldebau addysg tuag at blant a phobl ifanc.

Mae'r Rheoliadau'n rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu fframwaith cynllunio llai ar gyfer Awdurdodau lleol yng Nghymru.  Y bwriad yw symud tuag at greu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc yn 2008 a fydd yn gyd-gynllun strategol ar gyfer awdurdodau lleol ac asiantaethau partner yn nodi'r ymagwedd gyffredinol at bob gwasanaeth i blant a phobl ifanc, gan gynnwys addysg.

Yn y cyfamser bydd y Rheoliadau hyn yn dileu'r gofyniad i'r Awdurdodau Lleol gynhyrchu pedwar prif gynllun addysg, h.y. Cynlluniau Strategol Addysg, Cynlluniau Trefniadaeth Ysgol, Cynlluniau Cymorth Ymddygiad a Chynlluniau'r Blynyddoedd Cynnar a Datblygu Gofal Plant, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt yn hytrach gynhyrchu Cynllun Addysg Sengl a fydd yn cael effaith o 1 Medi 2006 i 31 Awst 2008.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi cynnwys, hyd, gofynion ymgynghori, dyddiad mabwysiadu, dyddiad cyhoeddi a gofynion, targedau cyrhaeddiad, presenoldeb a gwahardd, a'r personau y mae angen rhoi copïau o'r Cynllun Addysg Sengl iddynt.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Diddymu Ffioedd) (Cymru) 2006 (10 munud)**

These Regulations will abolish the registration and annual fees still paid by roughly

one third of social care and independent healthcare providers for registration with the Assembly.

- **Motion to approve Directions to Cardiff Local Health Board, Swansea Local Health Board and Monmouthshire Local Health Board (2006) under Standing Order 29 (10 munud)**

These Directions enable a person, detained in any of the relevant public sector prisons, within the three Local Health Board areas of Cardiff, Swansea and Monmouthshire, to be treated as usually resident for the period of their detention at the address of the prison for the purposes of regulation 2(2) of the Local Health Board (Functions) (Wales) Regulations 2003.

An exception to these Directions will apply in relation to the commissioning of psychiatric hospital care for the purposes of the removal of a person detained in prison to a hospital, under sections 47 and 48 of the Mental Health Act 1983. The 'responsible commissioner' in these cases will continue to be determined on the basis of usual residence prior to imprisonment or GP registration.

- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (45 munud)**

- **Dadl ar Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (45 munud)**

**Dydd Mercher 22 Mawrth 2006**

- **Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (30 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo newidiadau o fewn prif Grwpiau Gwariant o dan Reol Sefydlog 21 (10 munud)**

**Proposal to debate the following 2 items together but with separate votes (15 munud)**

- **Motion to delegate functions under the WDA Abolition Order to the**

**First Minister**

- **Motion to delegate functions under the WTB Abolition Order to the First Minister (15 mins)**

**Proposal to debate the following 2 items together but with separate votes (15 munud)**

- **Motion to delegate functions under ELWA Abolition  Order to the First Minister**

- **Motion to delegate functions under ACCAC Abolition Order to the First Minister**

- **Dadl ar y Cynigion am Ddeddfwriaeth Sylfaenol yn unol â Rheol Sefydlog 33.11 (60 munud)**

- **Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor ar Fesur Llywodraeth Cymru (90 munud)**

- **Dadl fer (30 munud)**

**<u>Dydd Mawrth 28 Mawrth 2006</u>**

- **Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

- **Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo, o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**

Ø **Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2006**
The intended effect of this Instrument is to specify Church House Trust plc as an approved lending institution to facilitate the right to buy and similar sales. All or part of the discount given on right to buy sales is repayable to the local authority if the dwelling is resold within five years (or three years for older tenants).  The Housing Act 1985 provides that the local authority's right to recover discount is secured by a first charge on the dwelling, unless an approved lending institution has made a secured loan to enable the purchaser

to buy the dwelling, in which case the approved lending institution's charge has priority over the local authority's charge. Certain classes of bodies are specified as approved lending institutions under the Act. Other bodies can apply to be specified by Order.

Ø **Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2006**

The Local Government Act 2003 contains the primary legislation that provides the National Assembly for Wales with a number of Regulation making powers to provide the detailed framework for the operation of the prudential system in Wales. The Local Authorities (Capital Finance and Accounting) (Wales) Regulations 2003 were approved by the National Assembly for Wales in Plenary on 9 December 2003 ("the main Regulations"). They were designed to facilitate the introduction and operation of the new capital finance system, 'the prudential system', as set out in Part 1 of the 2003 Act.

It is now considered that a further set of Regulations are necessary, in order to make a small number of further changes to the main Regulations. These proposed Regulations will make changes in relation to:

- the numbering and lettering of part of an main Regulation;
- small scale transfers of Local Authority housing stock;
- the classification of any levy payable following a transfer of Local Authority housing stock;
- the calculations for an Authority's opening Council Fund 'Capital Financing Requirement'; and
- when an Authority becomes Housing 'debt free' for pooling purposes.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cyngor Iechyd Cymuned (Sefydlu Cyngor Iechyd Cymuned Sir Gaerfyrddin, Trosglwyddo Swyddogaethau a Diddymu Cynghorau Iechyd Cymuned Llanelli/ Dinefwr a Chaerfyrddin/ Dinefwr) 2006 (15 munud)**

This Order establishes Carmarthenshire Community Health Council, transfers the functions, officers and members of Carmarthen/Dinefwr Community Health

Council and Llanelli/Dinefwr Community Health Council to Carmarthenshire Community Health Council and abolishes Carmarthen/Dinefwr and Llanelli/ Dinefwr Community Health Councils. The new Carmarthenshire Community Health Council will cover the areas previously covered by Carmarthen/Dinefwr and Llanelli Dinefwr Community Health Councils. The boundary of the new Carmarthenshire Community Health Council will match that of Carmarthenshire Local Health Board and Carmarthenshire County Council.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (Ymchwiliadau Safonau) 2006 (15 munud)**

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch cynnal ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am honiadau o gamymddwyn gan aelodau etholedig a chyfetholedig llywodraeth leol yng Nghymru, o 1 Ebrill 2006. Mae'n dirymu ac yn disodli 'Gorchymyn Comisiynydd Lleol yng Nghymru (Ymchwiliadau Safonau) 2001 (OS 2001 Rhif 2286 (Cy.174)), sy'n gwneud darpariaeth debyg ynghylch ymchwiliadau o'r fath gan y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru.

- **Motion to approve The National Health Service (Performers Lists (Wales) (Amendment) Regulations 2006 (15 munud)**

These Regulations amend the National Health Service (Performers Lists) (Wales) Regulations 2004 by inserting a new Part 4, in relation to Dental Performers Lists. They provide for lists of persons performing primary medical services to be kept by Local Health Boards (LHBs). Provision of primary dental services under a General Dental Services contract, a Personal Dental Services agreement, or by the LHB itself requires the dental performer to be included in a performers list kept by a LHB.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Diwygio) 2006 (15 munud)**

These Regulations will restrict access to cheaper (and ultimately free) prescriptions to patients who are treated by a Welsh prescriber registered with a Welsh Local Health Board or NHS Trust, even if they are under 25.

- **Motion to approve The Town and Country Planning (Fees for Applications and Deemed Applications) (Amendment) (Wales) Regulations**

**2006 (15 munud)**

These Regulations provide, in relation to Wales, for a 20% across-the-board increase in planning application fee levels from 1 April 2006 and a further 10% increase from 1 April 2007. They also provide a simplified fee structure and the removal of the 'free go' on re-application to regularise works undertaken in breach of conditions or in variation from the approved plans.

- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Geidwadol Cymru (45 munud)**

**Dydd Mercher 29 Mawrth 2006**

- **Cwestiynau i Brian Gibbons , y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (30 munud)**

- **Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (30 munud)**

- **Cwestiynau i Bwyllgor y Ty (5 munud)**

- **Datganiad gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru (30 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Plant (Trefniadau Preifat ar gyfer Maethu) (Cymru) 2006 (10 munud)**

These Regulations will replace the Children (Private Arrangements for Fostering) Regulations 1991 in relation to Wales, following amendments made by section 44 of the Children Act 2004 to the private fostering notification scheme established under section 67 of the Children Act 1989. The Regulations will strengthen the existing framework for notification of private fostering arrangements and enhance the local social services authorities' functions under which they must satisfy themselves about the welfare of privately fostered children.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Gwerth Gorau) (Pwer i Fasnachu) (Cymru) 2006 (10 munud)**

Diben y Gorchymyn hwn yw rhoi'r pwer i fasnachu i awdurdodau lleol Cymru, o dan adrannau 95, 96 a 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cyfansoddi y Pwyllgor Rhanbarthol Amddiffyn Rhag Llifogydd (Cymru) 2006 (10 munud)**

This Order amends the composition of the Welsh Regional Flood Defence Committee (RFDC) to a committee of eighteen members, eight to be appointed by the Minister for Environment, Planning and Countryside, two by the Environment Agency and eight by groups of constituent local authorities.

- **Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ar ei Adolygiad o Trinity Mirror (10 munud)**

- **Dadl fer (30 munud)**

**<u>Dydd Mawrth 4 Ebrill 2006</u>**

- **Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Motion to approve under Standing Order 24.25 (1 min)**
  - Ø **The Non-Domestic Rating (Alteration of Lists and Appeals) (Amendment) (Wales) Regulations 2006**

    These Regulations amend the Non-Domestic Rating (Alteration of Lists and Appeals) (Wales) Regulations 2005, which set out the rules for appealing against the valuation of a hereditament (property or unit which is liable for non domestic rates) and subsequent alteration of the Non Domestic Rating List. These Regulations correct a number of drafting errors in the Regulations mentioned. The amendments do not affect the intended purpose of the 2005 Regulations

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (120 munud)**

**<u>Dydd Mercher 5 Ebrill 2006</u>**

- **Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (30 munud)**

- **Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor ar Seilwaith y Rheilffyrdd (60 munud)**

- **Dadl ar Adroddiad yr Adolygiad Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio o Gamddefnyddio Sylweddau (60 munud)**

- **Y Ddadl Fer (30 munud)**